Partneriaeth Strategol Rhwng Cymwysterau Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol – adroddiad cynnydd

Cefndir

Mae Cymwysterau Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (Coleg Cymraeg) yn sefydliadau allweddol ym maes addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru.

Mae Cymwysterau Cymru yn gyfrifol am reoleiddio cymwysterau nad ydynt yn raddau yng Nghymru ac mae ganddo bedwar man ffocws fel rhan o'i strategaeth *Dewis i Bawb*, i gynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gyfrifol am ddatblygu a chefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru ac mae'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg.

I gefnogi a ffurfioli'r cydweithio, fe gafodd partneriaeth strategol ei ffurfio gydag ymrwymiad i ddatblygu cynllun gweithredu tair blynedd ar y cyd rhwng 2022-2025.

Datblygwyd y cynllun gweithredu hwn, sydd wedi'i strwythuro o amgylch pedair blaenoriaeth, i'n helpu i gyflawni ein nod cyffredin – gosod datblygiad cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ochr yn ochr â chymwysterau dwyieithog addas ar gyfer dysgwyr sy'n astudio'r cyrsiau hynny.

Mae Cymwysterau Cymru a'r Coleg Cymraeg yn cyfarfod yn chwarterol i adolygu cynnydd, nodi cynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys meysydd blaenoriaeth y mae angen eu datblygu ymhellach, a thrafod unrhyw feysydd sy'n achosi pryder.

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o gyflawniadau dros flwyddyn gyntaf y bartneriaeth rhwng 2022-23.

Blaenoriaeth 1

Gweithio gyda'n gilydd i osod meysydd blaenoriaeth ac i ymateb i argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

Ein hymrwymiad

- Cymwysterau Cymru i barhau â'u rhaglen o adolygiadau sector[1] ac adnabod yr angen am gymwysterau cyfrwng Cyrmaeg galwedigaethol.
- Cefnogi cyrff dyfarnu i ddarparu cymwysterau cyfrwng Cymraeg.
- Trafod yr angen am gymwysterau cyfrwng Cymraeg gydag Addysg Bellach a darparwyr dysgu yn seiliedig ar waith mewn grwpiau pwnc penodol sy'n cael eu harwain gan Cymwysterau Cymru.
- Codi ymwybyddiaeth o waith diwygio cymwysterau galwedigaethol Cymwysterau Cymru mewn meysydd blaenoriaeth a darparu adborth am argaeledd cymwysterau galwedigaethol ôl-16 yn Gymraeg.
- Casglu adborth gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.
- Sefydlu paneli pwnc yn y meysydd blaenoriaeth a chreu cynllun cenedlaethol ar gyfer y maes pwnc a fydd yn cynnwys llwybrau dilyniant i Addysg Uwch a chyflogaeth.
- Hyrwyddo'r cyfleoedd i astudio cymwysterau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog.

Deilliannau

- Mae'r Coleg Cymraeg wedi casglu adborth gan bartneriaethau sgiliau rhanbarthol, sefydliadau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau ac wedi adrodd yn ôl i Gymwysterau Cymru yn barhaus.

- Mae'r Coleg Cymraeg wedi bwydo i mewn i adolygiadau sector Cymwysterau Cymru ac yn rhannu canlyniadau'r adolygiadau hynny gyda'r sector.

- Mae gan y Coleg Cymraeg baneli pwnc mewn saith maes blaenoriaeth gyda'r bwriad o sefydlu panel ar gyfer yr wythfed maes ffocws yn dilyn darparu cyllid i sefydlu darpariaeth adeiladu ym mlwyddyn academaidd 2024/25.

[1] Celf, Creadigol a'r Cyfryngau (Haf 2024) a Gwallt a Harddwch (Haf 2025)

- Mae Cymwysterau Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol yn 2022/23 mewn perthynas â'n gwaith i dargedu cymwysterau galwedigaethol ôl-16 mewn meysydd o flaenoriaeth strategol.
- Bu cynnydd yn nifer y ceisiadau llwyddiannus am y Grant Cymorth i'r Gymraeg. Yn y flwyddyn ariannol 2023/24, cyflwynwyd cais gan 8 o gyrff dyfarnu, gyda rhai ohonynt yn cyflwyno cais am y tro cyntaf. Dyfarnwyd £272,875[2] o gyllid grant i sicrhau y caiff mwy nag 80 o gymwysterau eu darparu yn Gymraeg. Mae llwyddiant y gwaith targedu hwn wedi bod yn bosibl trwy gyfuniad o weithgareddau[3] a cheisio adborth rhanddeiliaid allweddol megis y Coleg Cymraeg.
- Mae Cymwysterau Cymru wedi sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid Cymraeg. Mae'r grŵp yma, yn ogystal â'r Grŵp Cefnogi Cyrff Dyfarnu gyda'r Gymraeg yn parhau i fod yn allweddol i'n gwaith ac o ganlyniad mae Cymwysterau Cymru wedi sefydlu 13 Grŵp Cymwysterau Sector, sydd wedi arwain at fwy o ddiddordeb yng ngweithgareddau *Dewis i Bawb* gan bartneriaid allanol. Bydd y cyfleoedd ymgysylltu cynyddol hyn yn sicrhau y gall Cymwysterau Cymru dargedu'r rhanddeiliaid perthnasol yn fwy effeithiol a chasglu gwybodaeth a fydd yn ein helpu i nodi a blaenoriaethu cymwysterau sydd ar gael yn Gymraeg.
- Mae'r cynnydd wedi'i hyrwyddo ar sianeli cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu Cymwysterau Cymru a thrwy gynnal digwyddiadau a chyhoeddi straeon newyddion i hyrwyddo'r datblygiadau yma.

Blaenoriaeth 2

Cydweithio i osod datblygiad cyrsiau a chymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

Ein hymrwymiad

- Parhau i gynnal Grŵp Cefnogi Cymraeg Cyrff Dyfarnu Cymwysterau Cymru gyda'r Coleg Cymraeg i gael mewnbwn a chael trafodaethau ac eitemau agenda cynigiedig

[2] Sylwch i £70,000 o'r ymrwymiad hwn gael ei warantu gan Lywodraeth Cymru. Sicrhaodd y gwarantu hyn y gallai Cymwysterau Cymru gyllido'r holl geisiadau llwyddiannus yn y flwyddyn ariannol 2023/24 gan liniaru'r risg o orwario.
[3] Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys: ymarferion mapio data, ein ffurflen ymholi ynghylch argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg, canfyddiadau ein Hadolygiadau Sector Cam 2 o Fusnes, Gweinyddu a Manwerthu, a Chelf, Creadigol a'r Cyfryngau, a thystiolaeth a gasglwyd o'n cyfarfodydd Grwpiau Cymwysterau Sector.

- Sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid Cymraeg a fydd yn rhoi adborth ar y cynnydd a wnaed yn erbyn ymrwymiadau strategaeth *Dewis i Bawb* Cymwysterau Cymru.
- Defnyddio dulliau sy'n cael eu gyrru gan dystiolaeth, sy'n annog cyrff dyfarnu i wneud defnydd rhagweithiol o'r Grant Cymorth i'r Gymraeg i ymateb i'r galw cynyddol am gymwysterau Cymraeg. Bydd Cymwysterau Cymru hefyd yn mesur effaith y grant ar ar gynyddu nifer y dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau cyfrwng Cymraeg fel rhan o'n gweithgareddau monitro grantiau.
- Gweithio mewn ffordd strategol gyda Llywodraeth Cymru, Medr: Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac Adnodd i sicrhau bod ystod o adnoddau Cymraeg a dwyieithog ar gael i gyd-fynd â'r cynnydd o ran yr ystod ogymwysterau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael
- Archwilio'r cyfle i gynhyrchu adnoddau addysgol ar gyfer y cwricwlwm 16-19 gyda chwmni adnoddau addysgol ddwyieithog
- Gweithio'n agos gyda, a pharhau i gasglu gwybodaeth gan, ddarparwyr AB a phrentisiaethau i fapio'r ddarpariaeth gyfredol, nodi bylchau mewn cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a chydweithio gyda Cymwysterau Cymru.
- Parhau i rannu'r wybodaeth hon gyda Cymwysterau Cymru a chyrff dyfarnu perthnasol.
- Bydd y Coleg Cymraeg yn parhau i ddadansoddi a rhoi adborth i Lywodraeth Cymru ar bob Cynllun Cwricwlwm AB.
- Rhannu arfer gorau a gwybodaeth gyda'r Grŵp Cefnogi Corff Dyfarnu gyda'r Gymraeg ynghylch darparu cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
- Bydd Coleg Cymraeg yn parhau i weithio gyda'r Gangen Adnoddau yn Llywodraeth Cymru ac Adnodd i gomisiynu adnoddau newydd i gynyddu darpariaeth prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Deilliannau

- Mae'r Coleg Cymraeg yn parhau i feithrin perthynas agos gyda darparwyr addysg bellach a phrentisiaethau i fapio'r ddarpariaeth bresennol. Mae'r Coleg Cymraeg yn cynnal cyfarfodydd cynllunio gyda'r sefydliadau yn flynyddol ac yn cynnig cyllid i ehangu'r ddarpariaeth. Wrth gynnig y cyllid, mae'n cadarnhau bod y cymwysterau perthnasol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn gweithio gyda Chymwysterau Cymru a'r cyrff dyfarnu perthnasol i sicrhau eu bod yn.

- Mae CBAC, LlC a Cymwysterau Cymru yn cydweithio i sefydlu'r cynllun ar gyfer dysgu proffesiynol ac adnoddau i gefnogi'r CfW a diwygio cymwysterau o fis Medi 2024.
- Y Coleg Cymraeg i weithio gydag Adnodd wrth iddo gael ei sefydlu ymhellach. Bydd tri adnodd newydd yn cael eu cyhoeddi yn nhymor yr haf 2023 o ganlyniad i'r cydweithio hyn mewn diwydiannau chwaraeon, busnes a chreadigol.
- Mae CBAC, Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru'n cydweithio i ddatblygu cynllun ar gyfer dysgu proffesiynol dwyieithog a chefnogaeth adnoddau ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a chymwysterau sydd wedi eu dylunio i gefnogi'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2024.
- Mae defnyddio data a mabwysiadu dull wedi'i dargedu wedi arwain at gynnydd yn nifer y ceisiadau llwyddiannus am y Grant Cymorth i'r Gymraeg. Bydd mesur yr effaith ar ddysgwyr yn parhau i 2024/25.

Blaenoriaeth 3

Cydweithio i gryfhau gallu o fewn y system (darpariaeth a chymwysterau)

Ein hymrwymiad

- Ymgysylltu'n rheolaidd â chyrff dyfarnu drwy gyfarfodydd Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu (FAB) Cymru yn y tymor a'n Fforwm i Gyrff Dyfarnu blynyddol.
- Gweithio gyda'n gilydd, a rhanddeiliaid allweddol eraill, i ymgymryd ag ymarfer mapio cynnar o aseswyr ansawdd mewnol, aseswyr allanol ac arholwyr, nodi capasiti cyfredol a datblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol.
- Cymwysterau Cymru'n darparu cymorth a gwybodaeth, gan gynnwys drwy ein pecyn adnoddau Y Cynnig Cymraeg i gyrff dyfarnu ar sut i fod yn rhagweithiol wrth ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y system gymwysterau.
- Datblygu canllawiau arfer gorau ar sut i ymdrin yn effeithiol â gwaith dysgwyr sy'n cael ei asesu yn Gymraeg lle nad yw'r cymhwyster yn cael ei gynnig yn ddwyieithog.
- Coleg Cymraeg yn ariannu swyddi ymarferwyr yn y meysydd blaenoriaeth[4] yn addysg bellach a swyddi aseswyr yn y darparwyr prentisiaeth. Bydd hyn yn

[4] Sylwch fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i arwain ar y maes gwaith pwysig hwn.

cynyddu'r capasiti staffio yn y sector a bydd cyfleoedd ar gael i'r staff hyn ddod yn aseswyr, aseswyr ansawdd mewnol, aseswyr allanol ac arholwyr.

- gweithredu Cynllun Gwreiddio i dynnu sylw at yr holl gyfleoedd datblygu staff dwyieithog a chyfrwng cyfrwng Cymraeg i dargedu ymarferwyr ac aseswyr, ac fel rhan o Gynllun Gwreiddio, sefydlwn wobrau staff newydd.

Deilliannau

- Mae'r Coleg Cymraeg yn ariannu hyd at saith swydd ymarferydd, yn dibynnu ar y ddarpariaeth a gynigir, ym mhob coleg AB ac yn ariannu hyd at bedwar aseswr ar gyfer pob un o'r prif ddarparwyr prentisiaethau dan gontract Llywodraeth Cymru.
- Mae 340 o staff ar draws darparwyr addysg bellach a phrentisiaethau bellach bellach yn aelodau o gynllun Gwreiddio sy'n rhybuddio staff am gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau addysgu dwyieithog. Ym mis Mai 2023, cynhaliwyd cynhadledd ar y cyd rhwng addysg uwch ac addysg bellach a phrentisiaethau i aelodau o'r cynllun Darlithydd Cyswllt (addysg uwch), aelodau'r Coleg Cymraeg a Gwreiddio rannu arfer da ymhlith y sector.
- Cynhaliwyd noson wobrwyo yn cynnwys gwobrau Gwreiddio ym mis Mehefin 2023 am yr ail flwyddyn yn olynol.
- Mae'r Coleg Cymraeg wedi cynnal sgyrsiau gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, yn ogystal â Chymwysterau Cymru i drafod y posibilrwydd o fapio'r aseswyr, arholwyr ac aswirwyr ansawdd i nodi capasiti presennol yn y system ac i nodi'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.
- Cynhaliwyd Fforwm i Gyrff Dyfarnu blynyddol Cymwysterau Cymru yn Rhagfyr 2022 a chyflwynwyd pecyn adnoddau Cynnig Cymraeg i gynulleidfa o dros 50 o gynrychiolwyr o gyrff dyfarnu.
- Mae Cymwysterau Cymru yn cynnal cyfarfodydd misol gyda FAB ac yn dal fyny yn fisol gyda FAB Cymru gyda chyfraniadau o bob rhan o Cymwysterau Cymru i ddarparu diweddariadau a hyrwyddo cyfleoedd i ymgysylltu/ymgynghori.
- Bydd Cymwysterau Cymru yn parhau i feddwl am ffyrdd o gefnogi cyrff dyfarnu i nodi sgiliau Cymraeg ymhlith aseswyr a dilyswyr, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn adnabod y capasiti presennol a datblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol.
- Bydd Cymwysterau Cymru yn parhau i drafod sefydlu cronfa ddata genedlaethol o unigolion â chymwysterau addas ochr yn ochr â datblygu Academi Asesu Genedlaethol i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodwyd gan yr ymarfer mapio.

Blaenoriaeth 4

Cydweithio i wella'r wybodaeth sydd ar gael am ddarpariaeth a chymwysterau cyfrwng Cymraeg, hyrwyddo eu hargaeledd a hwyluso mynediad iddynt

Ein hymrwymiad

- Ei gwneud hi'n ofynnol i bob corff dyfarnu gyhoeddi datganiad polisi sy'n nodi a yw'n sicrhau bod cymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu hyrwyddo argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a hwyluso mynediad iddynt.
- Hyrwyddo argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog drwy ein cronfa ddata QiW a chylchgronau cyfnodol i ganolfannau.
- Ymgysylltu â dysgwyr yn ystod digwyddiadau, fel Skills Cymru a ffeiriau glas i godi eu hymwybyddiaeth o gyfleoedd I astudio cymhwyster galwedigaethol ôl-16 cyfrwng Cymraeg.
- Casglu barn gan ein Grŵp Dysgwyr a llysgenhadon dysgwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- Hyrwyddo gwefan Cynllun Paru Prentisiaethau Llywodraeth Cymru a thynnu sylw at gyfleoedd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
- Hyrwyddo dilyniant o addysg bellach a phrentisiaethau i ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
  - Noddi gwobr dysgwr ym mhob Darparwr Addysg Uwch a Phrif Brentisiaeth.
  - Gweithio gyda Sgiliau Cymru i gynnwys mwy o gyfleoedd dwyieithog ym Mhrosiect Sgiliau'r Byd.
  - Trefnu sesiwn hyfforddi ar gyfer y llysgenhadon.
  - Defnyddio profiad ein llysgenhadon dysgwyr i gasglu llais dysgwyr i rannu eu profiadau gyda Cymwysterau Cymru.

Deilliannau

- Ym mis Tachwedd 2022, cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos o hyd ar Hyrwyddo a Hwyluso cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Ddiwedd mis Awst 2023,

cyhoeddodd Cymwysterau Cymru ei benderfyniadau fydd yn ei gwneud yn ofynnol i:

- gyrff dyfarnu gyhoeddi datganiad polisi am eu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg
- Cymwysterau Cymru i gyflwyno gofynion fel bod cyrff dyfarnu yn gwybod beth rydym yn ei ddisgwyl
- gyrff dyfarnu wneud i cyrff dyfarnu hyrwyddo eu cymwysterau cyfrwng Cymraeg

- Myncyhodd Cymwysterau Cymru ffeiriau glas o amgylch Cymru ym mis Medi 2022 a digwyddiadau Sgiliau Cymru yng Nghaerdydd ym mis Hydref 2022 a 2023 a chymryd rhan mewn sesiwn BBC Bitsize Cymru yn Ysgol Glantaf i ennyn diddordeb dysgwyr ar gyfleoedd dysgu cymwysterau ôl-16 cyfrwng Cymraeg. Aeth Cymwysterau Cymru hefyd i'r Sioe Addysg Genedlaethol ym mis Hydref 2022 a 2023 lle oeddent yn siarad gydag athrawon am cyfleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddysgwyr.
- Ym mis Awst 2023 cynhaliwyd Cymwysterau Cymru digwyddiad gyda Chyrff Dyfarnu a Chomisiynydd y Gymraeg yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar ei penderfyniadau Hyrwyddo a hwyluso cymwysterau cyfrwng Cymraeg.
- Bydd Cymwysterau Cymru yn parhau i gynnal cyfarfodydd pob tymor gydag arweinwyr sefydliadau addysg bellach a DSW ledled Cymru ac yn adrodd ar gynnydd y bartneriaeth strategol hon ac yn adnabod cyfleoedd datblygu ar y cyd.
- Mae'r Coleg Cymraeg yn bwriadu lansio cynlluniau penodol i hyrwyddo dilyniant o addysg bellach a phrentisiaethau i ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ym mlwyddyn academaidd 2024/25.
- Mae'r Coleg Cymraeg wedi noddi gwobr flynyddol i ddysgwyr ar gyfer sefydliadau addysg bellach ers 2019 a darparwyr prentisiaethau ers 2022. Yn ogystal, mae gwobr i ddysgwr addysg bellach a gwobr prentis yn ein noson wobrwyo flynyddol.
- Mae'r Coleg Cymraeg yn gweithio'n agos gydag Ysbrydoli Sgiliau i gynyddu nifer y cystadlaethau sydd angen sgiliau Cymraeg. Erbyn hyn mae naw cystadleuaeth yn gofyn am sgiliau Cymraeg. Cyflwynodd Inspiring Skills gyflwyniad i fwrdd strategol ôl-16 y Coleg Cymraeg yn hydref 2023.
- Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi lwyddiannus i lysgenhadon addysg bellach yn Aberystwyth ym mis Tachwedd a sesiwn hyfforddi lwyddiannus i lysgenhadon prentisiaethau ar-lein yn yr un mis.

- Bydd y Coleg Cymraeg yn parhau i gydweithio â gwefan y Cynllun Paru Prentisiaethau i dynnu sylw at gyfleoedd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.